OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1848

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008

**Amser**

**14.**—(1) Rhaid anwybyddu'r diwrnodau a grybwyllir ym mharagraff (2) wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o amser at ddibenion rheoliad 4(1).

(2) Y diwrnodau a grybwyllir yn y paragraff hwn yw—

(a) dydd Sadwrn neu ddydd Sul,

(b) Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**1**) yng Nghymru, ac

(c) unrhyw ddiwrnod a bennir yn ddiwrnod o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

(**1**) 1971 p.80.